

## **Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 11 yn gynwysedig.**

### **1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**

Yn bresennol: John Graystone (Cadeirydd), Julie Cook, Iwan Hywel, Tim Palazon, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Chris Franks, Dafydd Rhys, David Elis-Williams; Cathy Clark (o gofnod 3 ymlaen). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.

Yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Catrin Alun (cyfieithydd ar y pryd).

Ymddiheuriadau: Caroline Davies, Salamatu Fada, Daryl Leeworthy, Stephen Nicholls, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Suzanne Samuel, Guy Wallace Smith, Nick Taylor.

### **2. Aelodau'r Cyngor – newydd-ddyfodiaid ac ymadawiad**

Yn dilyn cyfweiliadau a gynhaliwyd ganol mis Awst, argymhellodd y Pwyllgor Chwilio benodi dau aelod i'r Cyngor – Tim Palazon, a gyflwynodd ei hun yn y cyfarfod; a Salamatu Fada, nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Cadarnhaodd y Cyngor eu penodiadau. Byddai'r ddau ohonynt yn eistedd ar y Pwyllgor Profiadau y Dysgwyr. Roedd hyn yn golygu nad oedd aelod ychwanegol o'r Cyngor wedi ymuno â'r Pwyllgor Archwilio (sef pwynt a godwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor); byddai angen trosglwyddo aelodaeth o un o bwyllgorau eraill y Cyngor er mwyn i hynny ddigwydd yn awr.

Crybwyllwyd hefyd fod Gerry Jenson wedi tynnu'n ôl fel aelod o'r Cyngor ym mis Awst, ar ôl dros chwe blynedd o wasanaeth fel rhan o'r corff llywodraethol a'i fwrdd 'cysgodol' rhagflaenol. Cofnodwyd diolchiadau iddi am ei chyfraniadau sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw a byddai cydnabyddiaeth briodol am ei hymrwymiad yn cael ei hanfon ati ar ran y Cyngor.

### **3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2019 a materion yn codi**

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngwesty Neuadd Maesmawr, Caersŵs yn gofnod cywir. Trafodwyd pedwar mater yn y cofnodion ymhellach:

**Cofnod 2 – Diweddariad ar safle Coleg Harlech:** cwblhawyd gwerthiant safle'r campws yr wythnos gynt am £200,000 ar ôl datrys y mater â'r Gofrestrfa Tir. Diolchwyd yn ffurfiol i David Elis-Williams am ei fewnbwn i Goleg Harlech dros gyfnod maith. Crybwyllwyd bod y gwaith o ddymchwel gwesty cyfagos y St. David's Hotel wedi dechrau o'r diwedd.

Fodd bynnag, roedd AOC|ALW yn berchen ar eiddo arall yn y dref. Roedd problem newydd wedi codi yn ymwneud â llain o dir y bu AOC|ALW yn berchen arno'n flaenorol i'r gogledd o'r dref – yn gyfagos at y tir oedd yn weddill yn ein henw yn Astor Fields – ac a werthwyd tua diwedd 2013 i un o gyn-gyflogion

CHWEAN (Coleg Harlech CAG Gogledd Cymru). Roedd y cyflogai wedi adeiladu tai cymdeithasol, fforddiadwy ar y llain ar gyfer Grŵp Cynefin, sef cymdeithas tai. Yn anffodus, bu llechfeddiant ar y tir yr oeddem yn parhau i fod yn berchen arno, ynghyd â'r llwybr mynediad a ddefnyddir o hyd i gyrraedd y caeau pori yr oeddem yn berchen arnynt o hyd. **Cynghorodd y Cyngor i staff gyfathrebu â thrwy Grŵp Cynefin (yr hwn oedd ei gyfreithwyr wedi amlygu'r broblem), gan ddefnyddio Syr fewyr Rowland Jones fel ymgynghorwyr, a chynnal cysylltiadau cadarnhaol â'r Grŵp, gan y gallai fod yn gorff pwysig wrth i ni ddatblygu ein tir cadwedig yn y dyfodol. Nid oedd yn cynghori cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri na Chyngor Gwynedd Council ynghylch y mater, ac roedd yn teimlo bod y mater yn ymwneud â'r llwybr mynediad yn bwysicach na cholli rhywfaint o dir i'r adeilad.**

**Cofnod 2 – Cysylltu â Llywodraeth Cymru:** yn groes i'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, ni anfonwyd llythyr at uwch weision sifil. Roedd hyn oherwydd bod y sylw a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai ynghylch dadansoddi ein hallbwn addysgol 'generig' yn gywir, mewn gwirionedd, ar sail gwahaniaethau technegol rhwng 'cymwysterau' a 'thystysgrifau' a ddarperir drwy ein dysgu achrededig.

**Cofnod 3 – Y sefydliad yn defnyddio '.ac.uk' fel enw parth:** cadarnhawyd bod AOC|ALW yn gymwys i ymgymryd â'r opsiwn hwn, ac roedd pa enw(au) union i'w (d)defnyddio fel rhan o'r parth hwnnw yn cael ei ystyried erbyn hyn. Ymddengys na fyddai manteision yn gysylltiedig ag UCM/NUS yn dilyn o'r cam hwn i'n dysgwyr, gan nad oeddent yn astudio am oriau digon hir; fodd bynnag, roedd angen cadarnhau'r manteision posibl yn gysylltiedig â Microsoft o hyd.

**Cofnod 3 – Materion i'w cadarnhau a'u cytuno o'r sesiynau cynllunio strategol ym mis Gorffennaf:** trafodwyd pwysigrwydd y defnydd cyson o'r ymadrodd disgrifiadol 'a'r mudiad democrataidd er addysg oedolion yng Nghymru' mewn perthynas â'r sefydliad. **Cadarnhawyd y dylid ei ddefnyddio'n fynych yn ein dogfennau/ar eingwefan, er na ddylai fod yn rhan o is-bennawd y sefydliad, ac y dylai'r fersiwn Gymraeg ddarllen fel a ganlyn: 'a'r mudiad democrataidd dros addysg oedolion yng Nghymru'.**

#### 4. Dilyniant i'r Diwrnod Cynllunio Strategol a Datganiad y Gweinidog

Roedd Datganiad y Gweinidog Addysg yng Ngorffennaf 2019 yn ymwneud â'r Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned o £4.3 miliwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei dalu'n flynyddol i awdurdodau lleol. Felly, roedd yn cynrychioli cyfran gymharol fach o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Gydag ailddosbarthiad y swm hwnnw yng nghyfnod 1 y cynllun penodedig, roedd yn debygol y bydd cystadleuaeth ar gyfer ei ddyrannu. Roedd cyflogi Jeff Greenidge fel ymgynghorydd ers ein Diwrnod Cynllunio Strategol ym mis Gorffennaf yn ymwneud yn benodol â'r mater hwnnw. Roedd trafodaeth bellach ag uwch weision sifil yn dangos eu bod yn rhwymedig i'r diwygiadau a fyddai'n arwain at gorff addysg ôl-16 PCET: felly, gallai cwango, neu sefydliad rhithwir hyd yn oed, ymgymryd â'r rôl o gomisiynu dosbarthiad y grant yn y dyfodol.

Roedd aelodau'r Cyngor o'r farn mai'r llwybr dylanwad gwleidyddol, er enghraifft drwy Ymgynghorydd Arbennig y Gweinidog, oedd yr un allweddol i'w ddilyn ynghylch y mater hwn. Ni waeth pa mor ddeniadol fyddai ceisio sicrhau rôl debyg fel corff goruchwylol cenedlaethol yn y maes i'r sefydliad, roedd yn bwysicach i AOC|ALW barhau'n ddarparwr addysg, yn hytrach na dod yn gorff rheoleiddio neu gomisiynu yn unig neu'n bennaf. Roedd hynny'n swyddogaeth fwy llywodraethol yn hytrach nag yn un i elusen annibynnol fel ni. Cyflwynwyd Cymraeg i Oedolion yn enghraifft o sefydliad o'r math hwnnw. Cytunwyd mai blaenoriaeth AOC|ALW oedd cryfhau ei hun p'un a roddir y rôl honno iddo ai peidio: felly, roedd ychwanegu 'Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol' fel ein his-bennawd yn adlewyrchu ein presenoldeb presennol, yn hytrach na bod yn ymgais ymlaen llaw i ddylanwadu ar ganlyniad y broses o ailffurfio'r Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan Lywodraeth Cymru.

## 5. Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2019

Soniodd Kathryn Robson am y tri ymgynghorydd a fu'n bresennol amser cinio i gyfarfod ag aelodau'r Cyngor: Jeff Greenidge, Raoul Humphreys a Nicola Perkins. Rhoddodd ragor o wybodaeth am eu cefndiroedd - Raoul Humphreys oedd yr unig un yn hollol newydd i'r sefydliad. Fe'i cyflogwyd o ganlyniad i fethu recriwtio Rheolwr Datblygu Busnes yn gynharach yn 2019. Ei gylch gwaith fyddai paratoi adroddiad i'w gyflwyno gerbron y Cyngor ynghylch y trawsnewid pellach oedd ei angen ar y sefydliad i esblygu'n llwyddiannus. Fel yr esboniwyd yn flaenorol, byddai Jeff Greenidge yn paratoi adroddiad ar senarios tebygol cyn ac ar ôl i gyfnod 1 y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned gael ei roi ar waith. O ystyried ei rôl fel Cadeirydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yng Nghymru, roedd ei benodiad yn un lle y gellid amgyffred gwrthdaro buddiannau: aethpwyd i'r afael â hynny drwy sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i waith ar gyfer AOC|ALW yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd ar ei liwt ei hun. Yn flaenorol, bu Nicola Perkins yn gysylltiedig â chynghori ar faterion personél yn AOC|ALW, ac roedd yn paratoi strategaeth y gweithlu yn barod ar gyfer y newidiadau oedd ar ddod. Gyda'i gilydd, byddai eu mewnbwn yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Ansawdd a'r Adolygiad Hunanasesu, a fyddai'n ffurfio strategaeth datblygu gynhwysfawr i'r sefydliad.

Roedd aelodau'r Cyngor o'r farn, ar ôl cydbwysu ei hyd a'i ddarllenadwyedd, bod hwn yn fodel da ar gyfer adroddiad y Prif Weithredwr. Wrth ymateb i gwestiynau, cadarnhawyd nad oedd swydd y Rheolwr Datblygu Busnes wedi'i dileu; yn hytrach, y nod oedd recriwtio iddi wedi i'r strategaeth uchod gael ei rhoi ar waith. Penodwyd Raoul Humphreys ar sail ymarfer tendro a oedd yn cynnwys 6 ymgeisydd, ac ef oedd Prif Weithredwr Cornwall College Group gynt, tra'r oedd Nicola Perkins yn ymgynghorydd adnoddau dynol a oedd yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe gynt. Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r tri darn o waith gwahanol oedd diwedd y tymor academaidd cyfredol. Yr arian a oedd yn cael ei wario arnynt gyda'i gilydd oedd tua £15,000, cyfwerth â chostau Rheolwr Datblygu Busnes am bedwar mis. **Cytunwyd y byddai disgrifiad ysgrifenedig cryno o'u rolau a'u cefndiroedd yn cael ei ddsbarthu â chofnodion y cyfarfod.**

Roedd y ffigurau data academaidd ar gyfer 2018-19 yn eithaf calonogol, er gan fod ôl-groniad cofrestru/ardystio ar ddiwedd blwyddyn academaidd bob tro, nid oeddent wedi'u cadarnhau hyd yn hyn. Erbyn hyn roedd AOC|ALW yn cael ei gynrychioli ar bob un o'r 3 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a gofynnwyd iddo gymryd yr awenau, ar eu rhan, i gyflwyno'r achos ar gyfer 'hawl i ddysgu gydol oes', yn unol ag ymgymeriad y Gweinidog. Byddai dau gyfarfod â'r Gweinidog Addysg yn cael eu cynnal y tymor hwn, ynghyd â rôl ar Gomisiwn 100 Addysg Oedolion 1919, gan danlinellu pwysigrwydd gwahaniaethau yng Nghymru a chwarae rhan yn lansiad Adroddiad y Canmlwyddiant y DU ar 19 Tachwedd.

Roedd aelodau'r Cyngor yn falch o weld y newyddion cadarnhaol am addysg undebau llafur, ond yn llai balch o weld y cynnydd araf a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â chyrsiau cyfrwng Cymraeg: roedd un aelod o'r farn, er mwyn cyflawni'r targed o 5%, y byddai angen recriwtio tiwtoriaid amser llawn i'r perwyl hwnnw. Roedd enghreifftiau bach ond pwysig o arfer da mewn dulliau o gymhwyso Safonau'r Gymraeg o ran negeseuon ffôn, cyfarfodydd dwyieithog y Cyngor a hyfforddiant iaith i staff/tiwtorïaid, ond ni fyddai'r rhain yn cyfrif am lawer heb gynnydd effeithiol yn ein darpariaeth addysgol, gan y byddai cyrff eraill yn llenwi'r bwlch hwnnw'n fuan, fel arall.

Esboniwyd y gwasanaethau a geir trwy ddod yn aelod cysylltiol o Sefydliad Bevan. Nid oeddem wedi derbyn ymateb Llywodraeth Cymru i'n her i'w chynnig ar gyfer y Gronfa Ariannol wrth Gefn hyd yn hyn. O ran diwygio arfarnu staff, profiad rhai o aelodau'r Cyngor oedd ei fod yn bwysicach ymateb i adborth staff, yn hytrach nag adborth rheolwyr yn unig, mewn perthynas â'r cynllun newydd.

## 6. Cyfrifon Rheoli, Awst 2018 – Gorffennaf 2019

Dyweddodd Mark Baines fod y cyfrifon blwyddyn gyfan yn dangos sefyllfa gadarnhaol a chadarn. Ychwanegol David Elis-Williams nad oedd unrhyw beth annisgwyl yn y ffigurau diwedd blwyddyn hyn, gan fod y Pwyllgor Adnoddau wedi dilyn y tueddiadau ariannol cyffredinol drwy gydol y flwyddyn. Roedd anwadlwydd cymharol y blynyddoedd blaenorol wedi'i oresgyn ac, o ganlyniad, byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau yr wythnos ganlynol ar sut i fuddsoddi rhan o gronfeydd wrth gefn mawr y sefydliad. Byddai'r cyfarfod hwnnw yn edrych ar yr angen posibl am wariant ychwanegol ar farchnata hefyd, a ffyrdd priodol i ddathlu hanes Coleg Harlech. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut gallai dyfarniad cyflog athrawon, sef 2.7% ar gyfer 2019-20, effeithio ar sefyllfa ariannol y flwyddyn gyfredol.

## 7. Cofrestr Risg ar gyfer Medi 2019

Derbyniwyd y dylai hyn gael ei roi yn syth ar ôl Adroddiad y Prif Weithredwr ar agenda'r Cyngor yn y dyfodol. Ymhelaethwyd ar y ddwy risg fwyaf, yn ymwneud â materion ariannol, yn yr Adroddiad hwnnw ac fe'u trafodwyd yn faith yn y cofnodion blaenorol: roedd penodi'r ymgynghorwyr yn ddatblygiad a adlewyrchwyd yn y Gofrestr, yr oedd yn bwysig i'r Cyngor ei nodi. Er nad oedd angen i'r sgorau risg eu hunain (lliwiau/pwyntiau) newid, o reidrwydd, o un fersiwn o'r Gofrestr i'r llall, dylai disgrifiadau traethiadol y camau lliniaru a gymerwyd er mwyn ychwanegu modd o sicrwydd newid yn sicr rhwng cyfarfodydd (fel yr oeddent yma).

## 8. Cynllun Marchnata 2019-20 ynghyd ag atodiadau

Cyflwynwyd y casgliad hwn o bedair dogfen i ddangos sut roedd y sefydliad wedi ymateb i bwyntiau'r Cyngor, a godwyd yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol, yn ymwneud â rhoi mwy o bwyslais ar farchnata a chyfathrebu. Fe'i paratowyd gan Jonathan Goddard, yr oedd ei ddychweliad graddol i'r gwaith wedi cyrraedd man lle'r oedd yn gweithio'n amser llawn unwaith eto. Roedd datblygu'r gallu i ymrestru a thalu am gyrсияu drwy ein gwefan yn gam mawr ymlaen, ac roedd rhai aelodau o'r Cyngor o'r farn y bu'n hir iawn yn cyrraedd. Byddai casgliadau gwaith Raoul Humphreys yn cael eu bwydo i'r Cynllun hwn. Yn gyffredinol, teimlwyd (eto) bod cyllideb o £65,000 braidd yn geidwadol ar gyfer ein hanghenion marchnata, beth bynnag fo'r casgliadau hynny. Awgrymwyd y dylai Cynllun y flwyddyn nesaf gysylltu camau gweithredu penodol â'i amcanion penodedig, ac y dylai'r amcanion hynny gael eu rhannu'n rhai tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

Tanlinellwyd pwysigrwydd cynnal cysylltiadau cryf ar-lein (gan gynnwys dolenni) a chroesgyfeirio'n gyson i sefydliadau partner ar y wefan a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Gallai hynny gael ei warantu'n ffurfiol mewn cytundebau partneriaeth. Er y byddai adroddiadau ar nifer y 'trawladau' a metrigau yn ymwneud â'r wefan a chyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, nid ystyriwyd bod y rhain yn ddigonol ar eu pen eu hunain: roedd achos ar gyfer gwerthuso p'un ai oedd cynhyrchion, lefelau gweithgarwch a'r gyllideb gyffredinol eu hunain yn effeithiol ac yn ddigon i fodloni ein hanghenion.

Cafwyd cais gan Jonathan Goddard am gyfraniadau blog gan aelodau'r Cyngor. Mynegwyd parodrwydd i wneud hynny, ond roedd teimlad y byddai cyfraniadau'n fwy tebygol gan y Cyngor (ac eraill) pe byddai rhestr y themâu awgrymedig ar gyfer y blog yn ymwneud yn llai â phrosesau, ac yn cynnwys hanesion dysgwyr.

## 9. Proses Adolygiad Cyfansoddiadol 2019-20

Amlinellodd Stephen Thomas yr amserlen i'w dilyn ar hyn yn arwain at y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yng ngwanwyn 2010, maint yr ymgynghoriad a'r ffocws tebygol (ar ddechrau'r broses, o leiaf) ar adolygu materion yn ymwneud â materion aelodaeth. Byddai'r Grŵp Ymgyrchu, Aelodaeth a Chyfathrebu yn rhan o'r adolygiad ar ryw adeg hefyd. Cadarnhaodd y Clerc fod y systemau'n golygu bod y Sefydliad yn gwybod pwy yw pob un o'i aelodau, ond bod angen cyfundrefniad diwygiedig ar eu categorieiddio'n glir a diweddarau eu statws.

Roedd cyfansoddiad y Cyngor yn agored i'w adolygu hefyd. Er y byddai corff strategol yn cael ei greu yn y dyfodol ar gyfer y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned, ac er gwaethaf negeseuon achlysurol gan rannau penodol o Lywodraeth Cymru ynghylch yr angen i 'foderneiddio', nid oedd unrhyw awgrym ar hyn o bryd y byddai'r agwedd hon ar lywodraethu yr un mor ganolog i'r broses adolygu ag y bu yn 2016. Serch hynny, atgoffwyd aelodau o fodel Adolygiad Humphreys ar gyfer llywodraethu addysg bellach, a'r angen am gyfathiant â chasgliadau'r tri ymgynghorydd yn y pen draw.

## 10. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Ni fynegwyd llawer o frwdfrydedd ynghylch lleoliad y cyfarfod, yr ystafell gyfarfod na'r lluniaeth a oedd ar gael. Rhoddodd y ddau aelod diweddaraf o'r Cyngor a oedd yn bresennol eu hargraffiadau cadarnhaol o'r hyn a oedd, yn eu barn nhw, yn gwestiynau gwybodus ac addysgiadol gan yr aelodau ar faterion allweddol. O ystyried y bu'r tri ymgynghorydd yn bresennol yn ystod amser cinio yn unig, bu ymrwymiad i'r tri ohonynt fynychu un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol i gyflwyno canfyddiadau eu hadroddiadau drafft neu lawn.

## 11. Cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig eraill ar gyfer 2019-20

- Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2019: Wrecsam
- Dydd Llun 27 Ionawr 2020: Caerdydd
- Dydd Iau 12 Mawrth: Y Drenewydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Iau 2 Ebrill: Merthyr Tudful neu Sain Ffagan
- Dydd Mercher 20 Mai: Glynebwy
- Diwrnod Cynllunio Strategol – Dydd Iau 2 Gorffennaf: Llandrindod
- Dydd Iau 23 Gorffennaf: Bangor

## CAMAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Teitl y cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 3	Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2019 a materion yn codi	Cynghorodd y Cyngor i staff gyfathrebu â thrwy Grŵp Cynefin (yr hwn oedd ei gyfreithwyr wedi amlygu'r broblem), gan ddefnyddio Syrfewyr Rowland Jones fel ymgynghorwyr, a chynnal cysylltiadau cadarnhaol â'r Grŵp, gan y gallai fod yn gorff pwysig wrth i ni ddatblygu ein tir	KR / CH	Hydref 2019

		cadwedig yn y dyfodol. Nid oedd yn cyngori cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri na Chyngor Gwynedd Council ynghylch y mater, ac roedd yn teimlo bod y mater yn ymwneud â'r llwybr mynediad yn bwysicach na cholli rhywfaint o dir i'r adeilad.		
Cofnod 3	Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2019 a materion yn codi	Cadarnhawyd y dylid defnyddio'r geiriau ' <i>and democratic movement for adult education in Wales</i> ' yn fynych yn ein dogfennau/ar ein gwefan, er na ddylai fod yn rhan o is-bennawd y sefydliad, ac y dylai'r fersiwn Gymraeg ddarllen fel a ganlyn: ' <i>a'r mudiad democrataidd <b>dros</b> addysg oedolion yng Nghymru</i> '. <i></i>	KR / CH / Jonathan Goddard	Hydref 2019
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2019	Cytunwyd y byddai disgrifiad ysgrifenedig cryno o rolau a chefnidiroedd y tri ymgynghorydd oedd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd yn cael ei ddsbarthu â chofnodion y cyfarfod.	KR / ST	Hydref 2019